**Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Tachwedd 8fed 2017.**

**Presennol.**

Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts,Cyng G.Jones, Cyng G.Hughes, Cyng C.Dixon

**Ymddiheuriadau**

Cyng P.Jenkins

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 11fed Hydref 2017**

Cyng Morris yn cynnig fod y cofnodion yn gywir Cyng Roberts yn eilio.

**Materion yn codi:**

**NP5/60/154** – Nid yw'r cyngor wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan y Parc ynglyn gwaith ymgynghori yn y gymdeithas gan y cwmni EE Ltd cyn i'r mater yma gael ei drafod gan y pwyllgor cynllunio.

Mae Cyng S.Roberts am drafod y mater ymhellach gyda Mr Aled Lloyd o'r Parc.

Cyng Jenkins ddim yn bresennol i rhoi unrhyw wybodaeth ynglyn a cwestiwn i ble mae'r arian am gael rhoi y mast yn y lleoliad yma yn mynd.

**Beech Rd** – Mae Cyngor Gwynedd wedi rhannu gwybodaeth gyda Cyng Jenkins yn egluro bod cynllun o waith i glirio ffosydd a gwteri yn yr ardal.

Mae'r cyngor yn teimlo fod cyflwr y ffordd yn y lleoliad hwn wedi bod yn wael yn rhy hir gyda ychydig neu ddim gwelliant ar y gorwel.

Mae'r cyngor plwyf yn cynnig bod pob aelod yn rhagweithiol ac yn adrodd materion sy'n ymwneud a chyflwr y ffordd yn uniongyrchol i Gyngor Gwynedd.

**Gwefan y Cyngor.**

Mae Mr Ap Gomer yn agos at gwblhau 'r Gwaith ar y wefan.

Dymunwyd fod y cynghorwyr yn edrych ar y safle cyn iddo fynd yn fyw ac os oes yna unrhyw broblemau i gysylltu hefo'r clerc cyn 20ain Tachwedd er mwyn iddo gysylltu hefo Mr Ap Gomer.

Cyfeiriad y we [http://www.cyngorganllwyd.cymru/](http://www.cyngorganllwyd.cymru/)

Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd a sefydliadau eraill yn ymwybodol o'r wefan, bydd y cyngor yn trafod lansiad swyddogol yn ystod cyfarfod mis Ionawr 2018.

**Cynghorydd Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Tir mynediad agored**.

Cyng Dixon heb dderbyn gwybodaeth pellach ar y mater yma.

Pan ddaw unrhyw wybodaeth i law caiff ei drafod ymhellach gan y Cyngor.

**Materion yn ymwneud a'r A470 yn Y Ganllwyd**

Nodwyd fod arwyddion newydd yn y pentref. Mae'n debyg nad ydynt yn gweithio yn iawn gan eu bod ymlaen yn gyson ar 30mya, nid yw hyn i weld yn slofi y traffig gan nad ydynt mor effeithiol a'r arwyddion gwreiddiol. Y Clerc i ysgrifennu at Mr K Skates o'r TRA ynglyn a'r mater.

**Coed o amgylch y Safle Bws**

Nid yw yn ymddangos fod y coed wedi eu torri er fod y mater wedi ei ddwyn i sylw y TRA. Y Clerc i atgoffa y TRA o'r broblem yn y gobaith y bydd y coed yn cael eu torri cyn gwneud unrhyw ddifrod i'r safle bws.

**Materion Ariannol**

**Cyllid Misol Hydref** **Cyson Banc: Hydref 2017**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£6271.57** |
| **Derbyniwyd:** | **Dim** |
| **Taliadau: Cyflog/Paye** | **£100.0** |
| **Yn y banc diwedd mis** | **£6171.57** |

cadarnhawyd yn gywir gan Cynghorwyr Roberts a Morris.

**Pensions Regulator** – er mwyn cydymffurfio gyda'r rheoliadau yn ymwneud a phensiwn yn y gweithle mae'r cyngor am ysgrifennu at y Clerc i'w gynghori na fydd yn cael ei roi mewn cynllun pensiwn ond y gall ymuno un os yw yn dymuno. Y llythyr iw arwyddo gan y cynghorwyr yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**Costau Awdit 2017** – mae anfoneb am £201 wedi ei dderbyn gan y Swyddfa Awdit yng nghyswllt costau yr awdit. Pasiwyd i dalu yr anfoneb.

Derbyniodd y Cyngor rodd o £250 gan Matt Ward.

**Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru** – ar ol trafodaeth ar y mater nid oedd gan y cyngor unrhyw beth i'w ychwanegu ar y mater.

**Llythyrau ac Ebyst**

Dim

**Unrhyw Fater Arall**

Mae'r fainc ger Derwen Deg angen sylw gan fod ei chyflwr wedi dirywio. Cynghorydd Morris am ofyn i Mri Thomas a'i Feibion i wneud y gwaith.

Biniau yn ymyl Safle Bws Tynygroes/Toiledau Y Pentref. Mae y rhain wastad yn llawn sbwriel. Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd i ofyn am wagio y biniau yn fwy rheolaidd.